OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 2979

## Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2006

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 24 Tachwedd 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Tanwyddau awdurdodedig at ddibenion Rhan III o Ddeddf Aer Glân 1993

**2.** Datgenir bod glo caled, glo lled-galed, trydan, nwy, gloeau stêm isel eu hanweddolrwydd a'r tanwyddau a ddisgrifir yn Atodlen 1 yn danwyddau awdurdodedig at ddibenion Rhan III o Ddeddf Aer Glân 1993.

### Dirymiadau ac arbedion

**3.**—(1) Mae'r Rheoliadau a restrir yn Atodlen 2 wedi'u dirymu.

(2) Bydd unrhyw danwydd a weithgynhyrchwyd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, ac a oedd yn danwydd awdurdodedig adeg ei weithgynhyrchu, yn parhau i fod yn danwydd awdurdodedig er bod y Rheoliadau a restrir yn Atodlen 2 wedi'u dirymu.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**)

*D. Elis-Thomas*

14 Tachwedd 2006 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1998 p.38.